Cofnodion cyfarfod y **PWYLLGOR RHEOLI DATBLYGU** a gynhaliwyd o bell drwy fideogynhadledd
**ddydd Mercher, 09 Mehefin 2021**

**Yn bresennol:** Y Cynghorwyr Lynford Thomas (Cadeirydd), John Adams-Lewis, Bryan Davies, Ceredig Davies, Gethin Davies, Meirion Davies, Ifan Davies, Odwyn Davies, Peter Davies MBE, Rhodri Davies, Dafydd Edwards, Rhodri Evans, Paul Hinge, Catherine Hughes, Gwyn James, Maldwyn Lewis, Lyndon Lloyd MBE, Gareth Lloyd, Dai Mason, Rowland Rees-Evans a Wyn Thomas.

Hefyd yn bresennol: Y Cynghorwyr

**Swyddogion yn bresennol:** Mr Russell Hughes Pickering, Swyddog Arweiniol Corfforaethol – yr Economi ac Adfywio, Mrs Gwennan Jenkins, Arweinydd Tîm Rheoli Datblygu'r De, Mr Jonathan Eirug – Arweinydd Tîm Rheoli Datblygu'r Gogledd, Mrs Catrin Newbold, Rheolwr Gwasanaeth – Rheoli Datblygu, Mrs Patricia Armstrong, Rheolwr Corfforaethol – Gwasanaethau Cyfreithiol, Ms Nia Jones, Rheolwr Corfforaethol – Gwasanaethau Democrataidd, a Mrs Dana Jones, Gwasanaethau Democrataidd a Swyddog Safonau.

(10:00am – 11:40am)

1. **Personol**
Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

2. **Ymddiheuriadau**
Dim.

3. **Datgan buddiannau personol a/neu fuddiannau sy'n rhagfarnu**
Bu i'r Cynghorydd Rowland Rees–Evans ddatgan buddiant personol a buddiant sy'n rhagfarnu yng nghais A200862, ond roedd wedi cael caniatâd gan y Pwyllgor Moeseg a Safonau i siarad ynghylch y cais.

4. **Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 19 Mai 2021**
**PENDERFYNWYD** cadarnhau bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Mai 2021 yn gywir.

**Materion yn codi**
Dim.

5. **Ceisiadau cynllunio a ohiriwyd yng nghyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor**
Dim.

6. **Ceisiadau datblygu, hysbysebu, statudol a'r awdurdod lleol**
Trafodwyd adroddiad Swyddog Arweiniol Corfforaethol – yr Economi ac Adfywio ynghylch ceisiadau datblygu, hysbysebu, statudol a'r awdurdod lleol:-

Darllenwyd sylwadau ysgrifenedig Mr Robert Thomas (Asiant) i'r Pwyllgor yn unol â'r atodiad dros dro i'r weithdrefn weithredol sy'n caniatáu i'r cyhoedd annerch y Pwyllgor Rheoli Datblygu yn sgil Covid-19.

A200862 Codi annedd, Tycoch, Trefenter, Aberystwyth

**GOHIRIO'R** penderfyniad ar y cais er mwyn i'r swyddogion ystyried yr wybodaeth a gyflwynwyd yn ddiweddar gan yr asiant o ran annedd fforddiadwy.

A201095 Codi annedd, Llain wrth ymyl Gwyn Ley, Penrhyn-coch, Aberystwyth

**GOHIRIO'R** penderfyniad ar y cais er mwyn i'r ymgeisydd a'r swyddogion drafod lleoli'r annedd yn nes at y fferm ac ystyried codi annedd amaethyddol TAN 6 yn hytrach nag annedd fforddiadwy, yn ogystal â darparu cyfiawnhad dros godi annedd TAN 6.

---

A200879 Dileu amod amaethyddol 4 caniatâd cynllunio D1/1000/87 i godi annedd ar gyfer gweithiwr amaethyddol, Rhos Rhydiol, Bwlch-llan, Llanbedr Pont Steffan

Nodi bod yr ymgeisydd wedi **TYNNU'R CAIS YN ÔL**.

.

---

Darllenwyd sylwadau ysgrifenedig Mr Zac Addison (Asiant) i'r Pwyllgor yn unol â'r atodiad dros dro i'r weithdrefn weithredol sy'n caniatáu i'r cyhoedd annerch y Pwyllgor Rheoli Datblygu yn sgil Covid-19.

A200994 Sied arfaethedig i storio peiriannau amaethyddol a garddwriaethol, Tir wrth ymyl Waun Fach, Cwm-cou, Castellnewydd Emlyn

**CYMERADWYO'R** cais yn ddibynnol ar amodau, gan gynnwys bod y cerbydau sy'n gysylltiedig â'r busnes yn cael eu storio yn y sied yn unig ac nid ar yr iard.

Nid oedd yr Aelodau'n cytuno ag argymhelliad y swyddogion ac roeddent yn tybio bod modd cymeradwyo'r cais am y rhesymau a ganlyn:-

- Mae'r cais hwn yn cefnogi ac yn hybu busnes gwledig
- Mae Polisi Cynllunio Cymru yn hyblyg ac mae'n caniatáu ar gyfer busnesau gwledig. Mae'n bolisi gan y Cyngor Sir i gynorthwyo busnesau bach gwledig fel hwn
- Mae hefyd yn cydymffurfio â pholisi'r Cyngor ar allyriadau carbon oherwydd bydd y sied wedi'i lleoli mewn man canolog i'w fusnes
- Mae Cyngor Cymuned Beulah yn cefnogi'r cais ac mae hon yn ffactor bwysig o blaid cymeradwyo'r cais
- Mae'n bwysig bod gan yr ymgeisydd sied i gadw ei beiriannau drud yn ddiogel dan glo
- Mae'r cais yn cydymffurfio â pharagraff 5.4 o Bolisi Cynllunio Cymru sy'n ymwneud â datblygu economaidd

7. **Ceisiadau cynllunio y bu i Swyddog Arweiniol Corfforaethol – yr Economi ac Adfywio ymdrin â nhw:-**

PENDERFYNWYD nodi’r rhestr o geisiadau cynllunio y bu i Swyddog Arweiniol Corfforaethol – yr Economi ac Adfywio ymdrin â nhw.

8. **Apeliadau cynllunio**

CYTUNWYD i nodi’r apeliadau a ganlyn:-

| # | Cyfeirnod yr apêl | Cais / Gorfodi | Apeliwr | Rhesymau dros apelio | Lleoliad | Penderfyniad allanol | Dyddiad y penderfyniad allanol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | APP/D6820/A/21/3269154 | A200981 | Mr A Szebeni (Rees & Soady) | Apêl yn erbyn penderfyniad i wrthod caniatâd cynllunio | 70 Stryd Cambria, Aberystwyth, SY23 1NZ | Caniatawyd gydag amodau | 19-05-2021 |
| 2 | APP/D6820/E/20/3262818 | A150941 | Ms K Price | Apêl yn erbyn gwrthod caniatâd adeilad rhestredig | Capel Aber-arth, Aber-arth, Aberaeron, SA46 0LN | Gwrthodwyd | 19-05-2021 |

9. **Unrhyw fater arall**

Dywedodd Swyddog Arweiniol Corfforaethol – yr Economi ac Adfywio y bydd gweithdy’n cael ei gynnal ar gyfer yr Aelodau ddydd Gwener, 25 Mehefin 2021, am 2.30pm. Bydd y gweithdy’n gyfle i ystyried materion fel llythyrau cyn galw ceisiadau i mewn, diweddariad ar Bolisi Cynllunio Cymru, Cymru’r Dyfodol, ac unrhyw newidiadau polisi sy’n tarddu o Lywodraeth Cymru. Bydd rhaglen waith ar gyfer cyfarfodydd y Pwyllgor dros y misoedd nesaf hefyd yn cael ei thrafod.

**Cadarnhawyd y cofnodion yng nghyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 23 Mehefin 2021**

**Cadeirydd:-**____________________

**Dyddiad:**______________________